Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

CLA688 – Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 3) 2016

Gweithdrefn

Cadarnhaol

Cefndir

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu safonau mewn perthynas ag ymddygiad 27 o gyrff yn y sector addysg.

Mae Atodlen 1 i'r Rheoliadau yn pennu safonau darparu gwasanaethau.

Mae Atodlen 2 i'r Rheoliadau yn pennu safonau llunio polisi.

Mae Atodlen 3 i'r Rheoliadau yn pennu safonau gweithredol.

Mae Atodlen 4 i'r Rheoliadau yn pennu safonau cadw cofnodion.

Mae Atodlen 5 i'r Rheoliadau yn pennu safonau sy'n delio â materion atodol

Y 27 o gyrff yn y sector addysg yw:

- Dewisiadau Gyrfa Dewis Gyrfa Cyfyngedig
- Sefydliadau Addysg Bellach (Coleg Ceredigion, Coleg Sir Gâr, Coleg Merthyr Tudful Cyfyngedig, corff llywodraethu Coleg Catholig Dewi Sant, WEA YMCA CC Cymru)
- Corfforaethau Addysg Bellach (Coleg Caerdydd a'r Fro, Coleg Cambria, Coleg y Cymoedd, Coleg Gŵyr Abertawe, Coleg Gwent, Coleg Pen-y-bont, Coleg Sir Benfro, Grŵp Llandrillo Menai, Grŵp NPTC)
- Sefydliadau Addysg Uwch (Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd, y Brifysgol Agored, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru Cyfyngedig, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Cymru, Prifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant
- Corfforaethau Addysg Uwch (Prifysgol Fetropolitan Caerdydd, Prifysgol Glyndŵr, Prifysgol De Cymru)
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cy

Craffu ar faterion technegol

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Yn dilyn trafodaeth yn y pwyllgor (gweler isod), ystyrir bod yr offeryn statudol, yn unol â Rheol Sefydlog 21.3(ii), yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

Trafodaeth y Pwyllgor

Ar 6 Mawrth 2016, daeth sylwadau ysgrifenedig ar y Rheoliadau hyn i law'r Pwyllgor, wedi'u llofnodi gan gynrychiolwyr o Undeb Myfyrwyr prifysgolion Caerdydd, Aberystwyth, Bangor, Abertawe a Drindod Dewi Sant yn ogystal ag Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru. Mae'r sylwadau ysgrifenedig hyn ar gael ar **wefan** y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2016, nododd y Pwyllgor y sylwadau a chytunodd i gyflwyno adroddiad gerbron y Cynulliad yn unol â'r pwynt Rhinweddau uchod.

Ymateb y Llywodraeth

Rydym yn nodi cynnwys y llythyr a dderbyniodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol oddi wrth gynrychiolwyr Undebau Myfyrwyr rhai o Brifysgolion Cymru. Cafodd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 3) 2016 eu datblygu yn dilyn ail ymchwiliad Safonau Comisiynydd y Gymraeg ("y Comisiynydd"), ac ystyriaeth bolisi manwl wedi'i ganoli ar y mathau o wasanaethau mae'r cyrff yn eu cynnig i fyfyrwyr ac i'r cyhoedd. Mae'r Rheoliadau yn darparu sylfaen gadarn i'r Comisiynydd, yn dilyn trafodaeth gyda'r cyrff, i allu gosod safonau sy'n rhesymol a chymesur ar y cyrff. Nod y Rheoliadau yw galluogi unigolion i gael mynediad at wasanaethau Cymraeg yn ein Colegau a Phrifysgolion. Mae safonau yn gryfach na Chynlluniau Iaith. Mae pob safon unigol yn glir ac yn ei gwneud yn amlwg i'r corff beth mae gofyn iddynt wneud, ac i'r defnyddiwr beth i'w ddisgwyl, o ran gwasanaeth Cymraeg.

Yn ogystal, mae'r Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi ystod o ddulliau gorfodi i Gomisiynydd y Gymraeg, sy'n llawer cryfach na'r system orfodi a oedd yn ei le ar gyfer Cynlluniau Iaith Gymraeg statudol a gymeradwywyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

(Daeth ymateb Llywodraeth Cymru i law ar ôl trafodaeth y Pwyllgor).